

Adroddiad i'r	Pwyllgor Craffu Perfformiad
Dyddiad y Cyfarfod	19 Mawrth 2020
Aelod/Swyddog Arweiniol:	Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol dros Gyllid ac Effeithlonrwydd / Alan Smith, Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio
Awdur yr Adroddiad	Iolo McGregor, Arweinydd y Tîm Cynllunio Strategol a Pherfformiad
Teitl	Adolygiad o'r Gofrestr Risg Gorfforaethol, Chwefror 2020

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Y wybodaeth ddiweddaraf am adolygiad mis Chwefror o'r Gofrestr Risg Gorfforaethol.

2. Beth yw'r rheswm dros wneud yr adroddiad hwn?

2.1. Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am yr adolygiad diweddaraf o'r Gofrestr Risg Gorfforaethol.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod y Pwyllgor Craffu Perfformiad yn ystyried y diwygiadau i'r Gofrestr Risg Gorfforaethol ac yn gwneud sylwadau.

4. Manylion yr Adroddiad

4.1. Yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth sydd yn datblygu a pherchen ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol ochr yn ochr â'r Cabinet. Caiff ei hadolygu'n ffurfiol ddwywaith y flwyddyn gan y Cabinet yn ystod sesiwn frifio'r Cabinet.

- 4.2. Yn dilyn pob adolygiad ffurfiol, caiff y gofrestr ddiwygiedig ei chyflwyno i'r Pwyllgor Craffu Perfformiad a'i rhannu gyda'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol.
- 4.3. Cyflawnwyd yr adolygiad blaenorol ym mis Medi 2019.
- 4.4. Cafodd dull newydd awch am risg y Cyngor ei fabwysiadu yn ystod yr adolygiad blaenorol. Mae hyn wedi ei ddefnyddio mewn trafodaethau yr ydym wedi'i gael gyda pherchnogion risg, ac yn cael eu monitro drwy golofn ychwanegol yn atodiad 2.
- 4.5. Yn ystod yr adolygiad diweddaraf, mae nifer o ddiweddariadau wedi bod o ran disgrifiadau risg, effeithiau/ canlyniadau a champau gweithredu. Mae ychydig o risgiau wedi cael eu sgorio o'r newydd. Mae'r newidiadau hyn wedi cael eu nodi yn atodiad 2.
- 4.6. I grynhoi:
- Mae un risg newydd wedi'i nodi gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth— **00045**: Y risg na all y Cyngor gyflawni rhaglen y Cyngor a sefydliadau allanol o fewn yr adnoddau presennol. Mae'r manylion ar gael yn atodiad 2.
 - Risg **00011** (Risg o ymateb aneffeithiol i ddiwyddiad annisgwyl difrifol) wedi'i ddiweddarau i adlewyrchu'r afiechyd Covid19 cyfredol. Mae'r difrifoldeb cynhenid a gweddilliol wedi ei ailsgorio, gan gynyddu o D2 (Oren) i A2 (Coch), ac E2 (Melyn) i C3 (Melyn) yn y drefn honno.
 - Nid oes unrhyw risgiau wedi'u tynnu.
 - Lle'r oedd cyfeiriadau yn bodoli i'r Tîm Gweithredol Corfforaethol, mae'r rhain wedi cael eu tynnu neu eu diwygio i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth fel sy'n briodol. Yn debyg roedd cyfeiriadau i'r strwythur bwrdd rhaglen y Cynllun Corfforaethol blaenorol wedi'i ddiweddarau i adlewyrchu'r newidiadau yno.
 - Mae ein risg mewn perthynas ag lechyd a Diogelwch wedi trosglwyddo o'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Economi a Pharth Cyhoeddus i Bennaeth Cyllid ac Eiddo, sydd â chyfrifoldeb strategol dros lechyd a Diogelwch.

- Mae ein risg sy'n ymwneud â'n rhwymedigaethau statudol dan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 wedi trosglwyddo bellach o'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau i Bennaeth Addysg a Gwasanaethau Plant.
- Lle bo'n briodol, mae'r wybodaeth ariannol wedi'i ddiweddarau i adlewyrchu'r setliad diweddaraf gan Lywodraeth Cymru.
- Drwy'r gofrestr, mae diweddariadau cadarnhaol ac ychwanegiadau wedi'u gwneud o ran ein rheolyddion sydd mewn lle, ac mewn rhai achosion mae camau gweithredu pellach wedi'u nodi.
- Mae'r risg ynghylch Clefyd (Chalara) Coed Ynn (a nodwyd yn adolygiad mis Medi) gyda rhagor o fanylion, a rheolyddion newydd a chamau gweithredu pellach wedi'u hychwanegu. Gan fod y risg yn fwy eglur, mae'r difrifoldeb cynhenid a gweddilliol wedi ei ailsgorio, gan gynyddu o A2 (Coch) i A1 (Coch), ac A3 (Oren) i A2 (Coch) yn y drefn honno.
- Does dim risg wedi lleihau yn eu difrifoldeb.
- Mae Risgiau 1, 6, 12, 21, 27, 33, 34, 36, 37 a 44 (gweler atodiad 2) yn anghyson gyda Datganiad Awch am Risg y Cyngor (atodiad 3). Mae'r rhain wedi cael eu hadolygu mewn trafodaethau gyda pherchnogion risg, a'u sgorio cyfredol yn cael eu cytuno i fod yn briodol. Mae'r anghysonder yn cyfiawnhau bod eu cynhwysiant yn cael eu monitro fel risgiau corfforaethol.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1. Diben y Gofrestr Risg Gorfforaethol yw amlygu digwyddiadau posibl yn y dyfodol a allai gael effaith niweidiol ar allu'r cyngor i gyflawni ei amcanion, gan gynnwys ei flaenoriaethau corfforaethol. Mae'r camau rheoli a gweithredu a amlygir felly'n hanfodol ar gyfer cyflawni'r blaenoriaethau corfforaethol.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Mae costau datblygu, monitro ac adolygu'r Gofrestr Risg Gorfforaethol yn cael eu cynnwys yn y cyllidebau cyfredol.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

7.1. Mae'r Gofrestr Risg Gorfforaethol yn dogfennu risgiau sydd wedi'u canfod, a'r camau lliniaru. Nid yw'r broses o ddatblygu ac adolygu'r ddogfen ei hun yn cael effaith niweidiol ar unrhyw un o'r nodau lles. Fodd bynnag, dylid asesu effaith ar les ar gyfer unrhyw broses, strategaeth neu bolisi newydd sy'n cael eu llunio o ganlyniad i gam lliniaru.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

- 8.1. Cyn yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth, mae trafodaethau unigol wedi'u cynnal gyda Pherchnogion Risg (Prif Swyddog Gweithredol, Cyfarwyddwyr Corfforaethol, Pennaeth Cyllid ac Eiddo, a Phennaeth Gwasanaethau Priffyrdd, Cyfleusterau a'r Amgylchedd), gan gynnwys mewnbwn gan Bennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd a Phrif Archwilydd Mewnol.
- 8.2. Ceir trafodaeth wedyn am y gofrestr gyda'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth a'r Cabinet i gytuno a/ neu wneud diwygiadau pellach.
- 8.3. Mae'r gofrestr wedi'i ddiweddarau yn cael eu hystyried gan y Pwyllgor Craffu Perfformiad, a'i rannu gyda'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi wrth ddatblygu, monitro ac adolygu'r Gofrestr Risg Gorfforaethol.

10. Pa risgiau sydd yna ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Nid oes unrhyw risgiau yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn.

11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

11.1. Deddf Llywodraeth Leol 2000

11.2. Mae Adran 7.2.1 Cyfansoddiad y Cyngor yn mynnu y dylai'r gwasanaeth Archwilio adolygu neu archwilio penderfyniadau a wnaed neu gamau a gymerwyd mewn cysylltiad â chyflawni unrhyw rai o swyddogaethau'r Cyngor, boed hynny gan y Cabinet neu ran arall o'r Cyngor.